PROCEDURES

Rheolau am Geisiadau i Ddyfarnu Cymwysterau TGAU/TAG

AWST 2019

DOGFEN REOLEIDDIO

Egwyddorion Cyffredinol y Rheolau am Geisiadau am Gydnabyddiaeth ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG

Mae'r ddogfen hon wedi'i hanelu at unrhyw gorff dyfarnu cydnabyddedig sy'n awyddus i wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU/TAG.

O dan adran 10 o Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, rhaid i ni lunio rheolau ynghylch cyflwyno ceisiadau i ni mewn perthynas â chydnabod corff dyfarnu.

Nod y rheolau hyn yw rhoi eglurder i ymgeisydd am y broses o wneud cais am gydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

Dylid darllen y ddogfen hon ar y cyd â'r Meini Prawf Cydnabod ar gyfer dyfarnu Cymwysterau TGAU / TAG.

Cydnabyddiaeth ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG

Er mwyn cael cydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG penodol yng Nghymru, mae'n rhaid i gorff dyfarnu gael ei gydnabod gan Cymwysterau Cymru yn gyntaf.

Mae ein proses o gydnabod corff dyfarnu ar gael yma.

Mae'n rhaid i unrhyw gorff dyfarnu sy'n dymuno dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG ddangos ei fod yn bodloni ein Meini Prawf ar gyfer Cydnabod cymwysterau TGAU/TAG neu bod ganddo drefniadau digonol ar waith fel y byddant yn gallu bodloni'r meini prawf o fewn cyfnod priodol o amser.

Ar sail y dystiolaeth a gyflwynir, bydd Cymwysterau Cymru yn penderfynu a yw'r corff dyfarnu wedi bodloni'r meini prawf, ac yna'n penderfynu p'un a fydd yn cydnabod y corff dyfarnu i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG.

Sut i wneud cais am gydnabyddiaeth ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU / TAG

Os hoffech wneud ymholiad ynglŷn â chael cydnabyddiaeth i ddyfarnu cymwysterau TGAU / TAG, e-bostiwch recognitionandapproval@cymwysteraucymru.org.

Rhaid i ymgeiswyr am gydnabyddiaeth TGAU / TAG gyflwyno'n ffurfiol ffurflen gais wedi'i chwblhau ac uwchlwytho unrhyw dystiolaeth ategol yr hoffent ei gyflwyno och yn ochr â'r ffurflen gais hon.

Yna byddwn yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd gennych yn erbyn ein Meini Prawf Cydnabod ar gyfer Cymwysterau TGAU / TAG, ac yn anelu at sicrhau y byddwn yn gwneud penderfyniad o fewn 40 diwrnod gwaith fel arfer.

Os byddwn o'r farn bod yr ymgeisydd wedi bodloni ein Meini Prawf, byddwn yn eu cydnabod yn ffurfiol i ddyfarnu cymwysterau TGAU/TAG yng Nghymru.

Os na fyddwn yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi bodloni ein Meini Prawf yn ddigonol, byddwn yn ysgrifennu atynt i esbonio pam nad ydym wedi derbyn eu cais.

Ar ôl ystyried ein hadborth gall ymgeiswyr wneud cais arall.